

Gwefannau ar gyfer Prosiectau Ymchwil

Os oes angen gwefan arnoch chi ar gyfer prosiect ymchwil, mae sawl opsiwn i'w ystyried. Mae manteision ac anfanteision i bob opsiwn felly dylech ystyried y ddwy ochr a dewis yr opsiwn gorau ar gyfer eich prosiect chi.

Ar gyfer llawer o brosiectau ymchwil, yr opsiwn gorau fydd creu [Gwefan WordPress ar y rhwydwaith ymchwil](#), ond gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried beth fydd yn gweithio orau i'r prosiect.

Ar gyfer pob opsiwn, dylech ystyried pwy fydd yn gyfrifol am y wefan ac yn ei chynnal a'i diweddarau yn ystod cyfnod y prosiect. Bydd angen i chi ystyried hefyd beth fydd yn digwydd ar ddiwedd y prosiect. Er enghraifft, am ba hyd y bydd angen i'r wefan fod ar gael, a ddylai hi aros yn gyhoeddus ynteu gael ei harchifo, a fydd angen parhau i wneud gwaith cynnal a chadw?

Os bydd eich gwefan yn casglu neu'n storio unrhyw ddata personol, cofiwch y dylid trafod hyn â'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth cyn bwrw ymlaen.

Cynnwys

Gwefannau ar gyfer Prosiectau Ymchwil	1
Opsiw 1: Tudalen(nau) System Rheoli Cynnwys (CMS)	3
Opsiw 2: Gwefan WordPress	4
Opsiw 2a: Rhwydwaith Mewnol	4
Opsiw 2b: Rhwydwaith Ymchwil	4
Cymorth WordPress	5
Opsiw 3: Safle Annibynnol	6
Opsiw 3a: Gwefan sy'n cael ei Lletya'n Fewnol	6
Opsiw 3a: Lletya'n Allanol	6
Cymharu'r Opsiynau	8
Gweithdrefnau	9
Cynllunio	9
Dechrau Arni	10
Dolenni Defnyddiol	11
Cwmnïau Datblygu Gwefannau Lleol	11
Ymgynghoriaeth	11

Opsiwn 1: Tudalen(nau) System Rheoli Cynnwys (CMS)

Os mai dim ond gwybodaeth sylfaenol am eich prosiect sydd ei hangen, ac nad oes angen llawer o dudalennau neu frandio pwrpasol, gallwn greu tudalennau i chi ar CMS y Brifysgol.

Bydd eich tudalennau yn rhan o brif wefan y Brifysgol a bydd y cyfeiriad gwe yn dibynnu ar eu lleoliad o fewn strwythur y safle.

Fe'ch cyfyngir i nifer fach o dudalennau ac ni fydd modd i chi ddefnyddio gwahanol frandio na newid gosodiadau'r dudalen.

Mae tudalennau CMS yn gyflym ac yn rhwydd i'w creu ac mae hyfforddiant a chefnogaeth lawn ar gael.

Opsiwn 2: Gwefan WordPress

Mae gennym ddau rwydwaith WordPress ar gael yn y Brifysgol: y rhwydwaith mewnol a'r rhwydwaith ymchwil. CMS bach yw WordPress i bob pwrpas, sy'n fodd i chi greu tudalennau gwe a blogiau. Oni bai bod angen i'ch safle ymchwil gynnwys cronfeydd data pwrpasol neu fathau anarferol o ffeiliau, WordPress yn aml yw'r opsiwn gorau.

Opsiwn 2a: Rhwydwaith Mewnol

Dim ond staff PA sy'n cael defnyddio'r rhwydwaith hwn, felly ni fydd yr opsiwn yn un addas os oes angen i ddefnyddwyr allanol gyfrannu at y safle. Bydd defnyddwyr allanol yn dal i allu gweld y wefan.

Bydd cyfeiriadau'r safleoedd yn dechrau gyda wordpress.aber.ac.uk, e.e., <https://wordpress.aber.ac.uk/researchproject/>. Nid oes modd defnyddio parthau pwrpasol nac is-barthau PA gyda'r rhwydwaith hwn.

Byddwch wedi eich cyfyngu i rai themâu ond bydd modd i chi ddewis lliwiau a chynlluniau.

[Gweld gwefannau presennol ar rwydwaith mewnol WordPress](#)

Opsiwn 2b: Rhwydwaith Ymchwil

Caiff staff PA yn ogystal â defnyddwyr allanol ddefnyddio'r rhwydwaith hwn, felly mae'n opsiwn delfrydol os bydd angen i ddefnyddwyr allanol gyfrannu at y safle.

Mae sawl opsiwn ar gyfer cyfeiriadau gwe ar y rhwydwaith hwn - gallwch:

- ddefnyddio'r cyfeiriad rhagosodedig (e.e. <https://wp-research.aber.ac.uk/researchproject/>)
- defnyddio parth pwrpasol (e.e. <https://researchproject.org.uk/>)
- defnyddio is-barth PA (e.e. <https://researchproject.aber.ac.uk/>)

Os ydych yn defnyddio parth pwrpasol, dylid ei brynu drwy'r Brifysgol.

Gallwch addasu gwefannau ar y rhwydwaith hwn trwy ddewis themâu, lliwiau, ffont a chynllun y tudalennau. Ni fydd modd i chi osod themâu nac ategion newydd eich hun, ond gellir gofyn am y rhain a'u gosod yn ganolog.

[Gweld gwefannau presennol ar rwydwaith ymchwil WordPress](#)

Cymorth WordPress

Gallwn gynnig cefnogaeth yn y meysydd canlynol:

- Creu safle a gosodiadau sylfaenol
- Cyswllt gyda'r Tîm Systemau ynghylch parthau neu is-barthau
- Gosod themâu
- Gosod ategion
- Cymorth gyda bygiau a phroblemau gyda'n rhwydweithiau
- Cyngor Cyffredinol

Er yr hoffem ni ddarparu cymaint o gymorth ag y bo modd, mae rhai meysydd sy'n gyfrifoldeb i chi:

- Dewis thema ar gyfer eich gwefan
- Ychwanegu a diweddarau cynnwys ar eich gwefan
- Gosod cynnwys ar eich tudalennau
- Cynllun cyffredinol y safle
- Asesu hygyrchedd eich gwefan a darparu datganiad hygyrchedd gyda'n [Pecyn Cymorth Datganiad Hygyrchedd](#).
- Sicrhau eich bod yn bodloni rheoliadau GDPR os byddwch yn casglu unrhyw ddata

Opsiwn 3: Safle Annibynnol

Os nad yw gwefan WordPress yn cyflawni eich anghenion, bydd angen i chi greu gwefan annibynnol. Gallai hyn olygu gwefan sy'n cael ei chynnal yn fewnol neu'n allanol.

Gall tîm y prosiect greu a chynnal y wefan os yw'r arbenigedd hwn ar gael, neu bydd angen i chi naill ai ddefnyddio cwmni datblygu gwe allanol neu gyflogi datblygwr gwe yn rhan o'ch prosiect.

Opsiwn 3a: Gwefan sy'n cael ei Lletya'n Fewnol

Bydd gwefan sy'n cael ei lletya'n fewnol yn cael ei lleoli ar weinyddion Prifysgol Aberystwyth. Ni chodir tâl am letya oni bai bod angen llawer iawn o le storio arnoch (mwy na 100gb).

Mae'r adnoddau sydd ar gael ar ein gweinyddion yn cynnwys MySQL, PHP, Python ac ati. Cysylltwch â ni os oes angen adnodd penodol arnoch chi, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod ar gael.

Gall cyfeiriadau gwe ar gyfer gwefannau a gynhelir yn fewnol naill ai ddefnyddio eich parth chi eich hun (e.e. <https://researchproject.org.uk/>) neu is-barth PA (e.e. <https://researchproject.aber.ac.uk/>). Os ydych yn defnyddio parth pwrpasol, dylid ei brynu drwy'r Brifysgol.

Rhaid sicrhau bod unrhyw feddalwedd a ddefnyddir ar eich gwefan a gynhelir yn fewnol yn gyfredol er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel ac y gall barhau i weithio pan fydd y systemau a'r offer craidd yn cael eu huwchraddio (e.e. PHP).

Gallwn eich helpu os aiff rhywbeth o'i le gyda'r lletya, ond ni allwn eich cynorthwyo i ddatblygu'r wefan. Efallai y bydd modd i ni roi rhywfaint o gymorth os oes angen i chi symud data o rywle arall.

Opsiwn 3a: Lletya'n Allanol

Bydd gwefan a gaiff ei lletya'n allanol wedi ei lleoli ar weinyddion sy'n perthyn i gwmni lletya. Bydd yn rhaid i chi dalu am y gwasanaeth.

Rhaid i gyfeiriadau gwe ar gyfer gwefannau sy'n cael eu lletya'n allanol ddefnyddio eich parth chi eich hun. Yn ddelfrydol, dylech brynu'ch parth trwy'r Brifysgol, neu mae'n bosib y bydd modd ei brynu trwy'r cwmni lletya.

Ni fydd modd i ni roi unrhyw gymorth i chi gyda gwefannau a gynhelir yn allanol.

Cymharu'r Opsiynau

Er mwyn eich helpu i wneud y penderfyniad, defnyddiwch y tabl cymharu hwn i asesu manteision ac anfanteision cymharol pob un o'r opsiynau ar gyfer eich prosiect.

	Cymorth	Is-barth pwrpasol	Parth pwrpasol	Golygyddion allanol	Brandio a chynllun pwrpasol	Costau
1. Tudalen CMS	Oes	Nag oes	Nag oes	Nag oes	Nag oes	Dim
2a. Rhwydwaith mewnol WordPress	Oes	Nag oes	Nag oes	Nag oes	Cyfyngedig	Dim
2b. Rhwydwaith ymchwil WordPress	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Prynu parth (dewisol)
3a. Gwefan annibynnol (wedi'i lletya'n fewnol)	Cyfyngedig	Oes	Oes	Efallai	Oes	Prynu parth (dewisol) Lletya (os oes angen storio dros 100gb) Datblygiad
3b. Gwefan annibynnol (wedi'i lletya'n fewnol)	Nag oes	Nag oes	Oes	Oes	Oes	Prynu parth Lletya Datblygiad

Gweithdrefnau

Cynllunio

Pan fyddwch yn y broses o greu eich cynnig ar gyfer prosiect ymchwil, ystyriwch pa un o'r opsiynau uchod fyddai'n gweithio orau i chi a sicrhewch eich bod wedi cynnwys unrhyw gostau perthnasol a gyfyd yn sgil yr opsiwn hwnnw.

Gall costau gynnwys:

- Cost cyflog ar gyfer swydd Datblygwr Gwe
 - Ar gyfer gwaith datblygu gwefannau cyffredinol byddem yn awgrymu gradd 6 ar raddfa gyflog PA.
 - Ar gyfer gwaith datblygu gwefannau mwy arbenigol a chymhleth byddem yn awgrymu gradd 7 ar raddfa gyflog PA.
- Cost dylunio gwefan ar gyfer y cwmni Datblygu Gwe y byddwch yn ei ddewis – gallech fynd at gwmni yn y cyfnod cynllunio i gael syniad o ddyfynbris ar gyfer y nifer o dudalennau rydych chi'n amcangyfrif y byddwch eu hangen.
- Costau parth
- Costau cynnal

Dechrau Arni

Ar gyfer opsiynau 1 i 3a, y cam cyntaf yw [cysylltu â ni](#) gan nodi manylion am y wefan rydych chi am ei sefydlu. Dylech gysylltu â ni yn ystod y cam ymgeisio er mwyn i ni allu eich cyngori yn gynnar yn y broses.

Ar gyfer opsiwn 3b, dylech ddechrau trwy [gysylltu â ni](#) er mwyn rhoi gwybod i ni eich bod yn creu gwefan allanol ac yna naill ai:

- prynu gwe-letya os ydych chi'n bwriadu creu'r wefan eich hun
- cyflogi datblygwr gwe, neu contractio cwmni datblygu gwe i ddatblygu'r wefan i chi (cofiwch ddilyn rheolau [caffael](#) PA)

Dolenni Defnyddiol

Cwmnïau Datblygu Gwefannau Lleol

Sylwch: nid yw cynnwys y dolenni hyn yn dangos bod y cwmnïau wedi cael eu fetio – sicrhewch fod y cwmni a ddewiswch yn addas i chi a'ch prosiect.

- Gwe Cambrian Web: <https://cambrianweb.com/>
- Coast Web Solutions: <https://www.coastwebsolutions.co.uk/>

Ymgynghoriaeth

Jisc Consultancy: <https://www.jisc.ac.uk/consultancy>